TRYDAN A PHWER:

Cyfres o 37 sgrîn a geir yn y pecyn hwn ac mae'n cynnig amrywiaeth o weithgareddau am drydan ac egni gan gynnwys cynrychioli cylchedau ar ffurf lluniadau a diagramau, adeiladu cylchedau mewn trefniadau cyfres a pharalel, rôl switsys a'r prif ffyrdd o gynhyrchu trydan.

Yn ogystal â hyn, mae nifer o sgriniau i'w hunan gynllunio sy'n galluogi i'r plant ddilyn rhai agweddau o'r gwaith ymhellach, neu gwblhau tasgau a osodir gan yr athro. Agorir y sgriniau hyn trwy glicio ar y botwm cynllunio sgrîn o fewn y panel tasg perthnasol.

Mae'r pecyn yn cefnogi Rhaglen Astudio Cwricwlwm Cenedlaethol CA2 Trydan a rhai agweddau ar ofynion CA3.

Y SGRÎN AGORIADOL:



Mae’r sgrîn agoriadol yn cynnig dewis o weithgareddau a gellwch eu hagor mewn unrhyw drefn.

1. Cliciwch yma i agor sgrîn ar beryglon trydan.
2. Cliciwch yma am wybodaeth amdan y botymau a geir ar y sgriniau.
3. Cliciwch yma i agor sgrîn ar gylchedau syml.
4. Cliciwch yma i agor sgrîn ar luniadau a diagramau cylchedau.
5. Cliciwch yma i agor sgrîn ar switsys.
6. Cliciwch yma i agor sgrîn ar fyrddau trydan.
7. Cliciwch yma i agor sgrîn ar ffynonellau egni.
8. Cliciwch yma i agor sgrîn ar rannau plwg.

Y CYNNWYS:

1. Mae trydan yn beryglus - cwblhau poster.
2. Cylched syml - gweithgaredd labelu.

3. Torri cylched syml - adeiladu brawddegau.
4. Gwneud lluniad o gylched - copïo lluniad.
5. Mwy o luniadau - mwy o ymarfer gyda lluniadau.
6. Diagramau cylchedau - cwblhau allwedd.
7. Lluniadau a diagramau cylchedau - gwneud y diagram cywir.
8. Paru lluniadau a diagramau cylchedau 1 - darganfod y diagramau cywir.
9. Paru diagramau a lluniadau cylchedau 2 - darganfod y diagramau cywir.
10. Amrywio llacharedd bylbiau - dewis y bylbiau cywir.
11. Trefniadau cyfres a pharalel - disgrifio'r gwahaniaethau.
12. Llachar neu lachar iawn? - rhoi bylbiau yn y lle cywir.
13. Wedi'i oleuo neu ddim - rhoi bylbiau yn y lle cywir.
14. Llachar, llachar iawn neu wan - rhoi bylbiau yn y lle cywir.
15. Paralel neu gyfres - goleuo neu ddin - rhoi bylbiau yn y lle cywir.
16. Rheoli dyfeisiau trydanol - creu taflen wybodaeth.
17. Cylchedau gyda switsys - rhoi bylbiau yn y lle cywir.
18. Cylchedau gyda switsys dwy ffordd - darganfod ffeithiau.
19. Bwrdd cylched - creu taflen wybodaeth.
20. Bwrdd cylched - ffyrdd o dorri'r cylched.
21. Bwrdd cylched - ffyrdd o amrywio llacharedd bylbiau.
22. Bwrdd cylched - creu cylchedau o ddiagramau cylched.
23. Cynhyrchu cerrynt trydanol - disgrifio.
24.Rhannau'r plwg - labelu.
25. Ffynonellau egni - is fwydlen i'r uned ar bwer.
26. Cynhyrchu trydan - darganfod a disgrifio.
27. Egni o danwydday ffosil * - darganfod a disgrifio.
28. Egni geothermal * - darganfod a disgrifio.
29. Egni niwclear - darganfod a disgrifio.
30. Trydan dwr - darganfod a disgrifio.
31. Trydan dwr pwmpio a storio - darganfod a disgrifio.
32. Trydan dwr pwmpio a storio- cwblhau'r llun.
33. Egni solar - darganfod a disgrifio.
34. Egni'r llanw - darganfod a disgrifio.
35. Egni'r gwynt - darganfod a disgrifio.
36. Bio-egni - darganfod a disgrifio.
37. Ffynonellau egni - didoli ffeithiau yn fanteision ac anfanteision.

Y SGRINIAU:

Mae'r sgriniau'n cynnig dewis o weithgareddau a gall y plant ychwanegu atynt trwy lusgo labeli a lluniau sydd wedi'u darparu iddynt yn y paneli adnoddau. Gallant glicio ar y botwm tasg a chyflawni'r dasg a rhoddir iddynt, neu ddefnyddio cynnwys y sgrîn yn eu ffordd eu hunain.

YSTOD GALLU: Mae'r sgriniau wedi'u llunio ar gyfer eu defnyddio gan ystod o wahanol alluoedd. Mae'r unedau CA3 sydd wedi'u cynnwys a'r cyfle i gynllunio sgriniau

ac ysgrifennu'n rhydd yn ymestyn disgyblion dawnus a thalentog ac yn rhoi mwy o her iddynt.

Ar y llaw arall, mae nifer o'r paneli adnoddau yn cynnig brawddegau neu ben a chynffon brawddegau i helpu'r plant sy'n cael trafferth gydag ysgrifennu rhydd.

Y BOTYMAU:

Gall y plant glicio ar fotymau i agor y paneli adnoddau, tasg a geirfa. Gallant glicio ar y botwm gwirio am gymorth a gallant symud o sgrîn i sgrîn trwy glicio ar y saethau, neu ddychwelyd at yr hafan ddalen trwy glicio ar y ty.

FFORMAT MY WORLD A FFORMAT TEXTEASE:

Mae'r pecyn hwn yn becyn cynhaliol i 'MY WORLD 3', 'MY WORLD FOR WINDOWS' A 'TEXTEASE'. Mae angen un o' r uchod ar y cyfrifiadur i redeg y pecyn. Mae'r fformat 'My World' yn mewnosod. Rhaid mewnosod yn fformat 'Textease' trwy gopïo'r blygell i'r ddisg galed – gweler 'MEWNOSOD' isod.

Yn y fformat 'My World' - CLICIWCH 'Alt' ar y bysellfwrdd i agor y ddewislen ac argraffu sgrîn, arbed sgrîn neu ddod allan o 'My World'.

Mae'r fformat 'My World' a'r fformat 'Textease' o'r meddalwedd ar yr un CD gan adael y dewis i'r athro.

Y BOTYMAU AR Y SGRINIAU:

Mae nifer o fotymau ar y sgriniau a gall y pl;ant eu hagor mewn unrhyw drefn.



1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12

FFORMAT MY WORLD

1	2	6	5	11	12

FFORMAT TEXTEASE

1. Y botwm yn ôl. Cliciwch yma i agor y sgrîn flaenorol.
2. Y botwm tasg. Cliciwch yma am dasg.
3. Y botwm testun. Cliciwch yma i greu testun newydd.
4. Y botwm geirfa. Cliciwch yma i gael testun parod.
5. Y botwm ymchwil. Cliciwch yma am ragor o wybodaeth.
6. Y botwm cymorth. Cliciwch yma am gymorth ychwanegol.
7. Y botwm adnoddau. Cliciwch yma am rhagor o luniau.
8. Y botwm lleihau. Cliciwch raffeg neu destun ar y botwm hwn i'w lleihau.
9. Y botwm chwyddo. Cliciwch raffeg neu destun ar y botwm hwn i'w chwyddo.
10. Y botwm bin. Cliciwch raffeg neu destun ar y botwm hwn i'w ddileu.
11. Y botwm hafan. Cliciwch yma i ddychwelyd at y sgrîn agoriadol.
12. Y botwm ymlaen. Cliciwch yma i agor y sgrîn nesaf.

Gweler y llyfryn 'Textease' am ragor o fanylion am y botymau ar y bar uchaf.

Y PECYN A'R CWRICWLWM:

Mae'r pecyn yn cefnogi Rhaglen Astudio Cwricwlwm Cenedlaethol CA2 Trydan a phwer a rhai agweddau ar ofynion CA3 fel y gweler isod:

CA2 TRYDAN:

1. Bod angen cylched ddargludol gyflawn, gan gynnwys batri neu gyflenwad pwer er mwyn i gerrynt lifo a gwneud i ddyfeisiau trydanol weithio.
2. Ymchwilio i sut y gellir defnyddio switsys i reoli dyfeisiau trydanol mewn trefniadau cyfres a pharalel syml.
3. Y gellir rheoli pa mor llachar yw bylbiau drwy newid y cerrynt.
4. Ffyrdd o amrywio'r cerrynt mewn cylched.
5. Sut I gynrychioli cylchedau syml drwy gyfrwng llunaiadau a diagramau.

TRYDAN A PHWER © Clic 2001, 2003

SGRINIAU GAN GAYNOR PERRY; GRAFFEG GAN GAYNOR PERRY

PWYSIG: Ni cheir copïo'r pecyn hwn neu'i roi i unrhyw unigolyn neu ganolfan arall. Byddai hyn yn torri'r hawlfraint ac yn anghyfreithlon.

MEWNOSOD Y FFORMAT MY WORLD:

Dylai rhoi'r CD yn y gyriant CD achosi i flwch dialog 'SetUp' ymddangos.
Yna, dilynwch y cyfarwyddiadau ar y sgrîn.

MEWNOSOD Y FFORMAT TEXTEASE:

Dylai defnyddwyr Textease glicio ar 'My Computer' i agor y gyriant CD. Gellir copïo'r blygell TrydanTex i'r ddisg galed a gwneud llwybr byr ar y bwrdd gwaith i'r ffeil agoriadol, sef 1Trydan.

Y FFONT YSGOL 2:

Defnyddiwd y ffont 'Ysgol 2' ar y sgriniau gyda chaniatâd MEU Cymru.
www.meucymru.co.uk

Dylai mewnosodwr My World fewnosod y ffont Ysgol 2 yn y blygell ffontiau.

Dylai defnyddwyr Textease agor y blygell 'Ffontiau' ar y CD, yna clicio ddwywaith ar setup.exe. Bydd hyn yn arsefydlu 'Ysgol 2' yn y blygell ffontiau.

GWELER Y DDOGFEN SAESNEG 'ELECTRICITY AND POWER' AM RAGOR O WYBODAETH e.e. Y graffeg, Cwmhwysiad, Ystod gallu a gwahaniaethu, Cynhaliaeth a Byrddau gwyn rhyngweithiol

DYWEDWCH WRTH ERAILL OS YDYCH YN HOFFI EIN CYNNYRCH.

DYWEDWCH WRTHYM NI OS OES UNRHYW BETH SYDD DDIM YN EICH PLESIO AM EIN CYNNYRCH.

Clic, Bwthyn Y Glyn, Nant Y Garth, Y Felinheli, Gwynedd. LL56 4QB
Ffôn 01248 671093
Ffacs (ac ail lein) 01248 679295

ebôst-clic@clicsoft.co.uk
CYSWLLT: Gaynor neu Thomas Perry.